# Tymor y Gwanwyn (i) 2019 — Blynyddoedd 1 a 2

YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR



## Thema'r hanner tymor yw: Cerddorfa

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae 'Y Stiwdio Gerdd' a mwynhau cyfansoddi, arbrofi a gwrando ar gerddoriaeth.
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan gynnwys ysgrifennu barddoniaeth sy'n def-nyddio odl.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Datblygiad Creadigol**

- Dysgu am offerynnau amrywiol a mwynhau creu cyfansoddiadau syml;
- Ymateb i gerddoriaeth o bob math drwy drafod a chynhyrchu delweddau;
- Ymateb i gerddoriaeth drwy waith symud creadigol.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau. Dylid ceisio ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Bl 2 yn unig)

**Datblygiad Mathemategol**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur pwysau a dysgu darllen yr amser ar gloc analog a digi-dol.
- Chwarae llawer o gemau mathemateg pen.
- Dysgu sut i drefnu a defnyddio data gan ddefnyddio'r cyfrifiadur hefyd.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion: [www.yggbrynymor.co.uk](http://www.yggbrynymor.co.uk) Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Addysg Grefyddol:**

Ymweld ag eglwys neu gapel lleol.

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:** Cyfathrebu ein syniadau trwy gyfrwng amrywiol ddulliau, gan gynnwys cyfansoddi cerddoriaeth.

Dysgu am bwysigrwydd e-ddiogelwch.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Dosbarthu offerynnau i setiau yn ôl eu priodweddau;
- Dysgu sut y mae sain yn cael ei greu a sut mae'n dod o ystod o ffynonellau;
- Am ystod o ganeuon a cherddoriaeth o wahanol ddiwylliannau ac o wahanol gyfnodau;

**Datblygiad Corfforol**

- Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd
- Ymarfer a dysgu sgiliau dawnsio creadigol.
- Ymarfer sgiliau llawdrin-iol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

- Trafod a mynegi ein teim-ladau wrth wrando ar gerddoriaeth amrywiol.

***Os oes gennych unrhyw arbenigedd yn y meysydd uchod, e.e. yn medru canu rhyw offeryn neu yn berchen ar unrhyw offerynnau diddorol, croeso mawr i chi i gysylltu â ni!***